# BE THE WAVE
# AR FRIG Y DON

# Pysgota Cynaliadwy

Cynllun Gwers



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

| Nodau |
|---|
| • Deall effeithiau pysgota ar ecosystemau a sut allwn ni reoli arferion pysgota i leihau'r effeithiau hyn. Bydd disgyblion yn dechrau deall yr hyn sy'n gwneud bwyd môr yn gynaliadwy. |
| **Amcanion** |
| • Disgrifio effeithiau pysgota anghynaladwy ar ecosystemau.<br>• Dadansoddi data i asesu newid dros amser.<br>• Dadansoddi ffeithluniau (infographics) i asesu effeithiau dyframaeth ar ecosystemau. |

| Pwnc Eco-Sgolion | Nodau Byd-eang |
|---|---|
| • Bioamrywiaeth<br>• Iechyd, Bwyd a Llesiant | • 14 Bywyd o dan y dŵr |

| Cysylltiadau i Gwricwlwm Cymru | |
|---|---|
| Diben | |
| Dysgwyr uchelgeisiol galluog sy'n:<br>• Adeiladu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau i gysylltu a gymhwyso'r wybodaeth honno mewn cyd-destunau gwahanol.<br>Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:<br>• Darganfod, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth wrth lunio eu barn.<br>• Dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd eu planed.<br>Cyfranwyr mentrus creadigol sy'n:<br>• Mynegi syniadau ac emosiynau drwy gyfryngau gwahanol. | |
| Beth sy'n bwysig – Disgrifiadau Dysgu | Cam Cynnydd: Pedwar |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>• Disgrifio sut mae effaith ein gweithredoedd yn cyfrannu at y newidiadau yn yr amgylchedd a bioamrywiaeth.<br>• Disgrifio cyd-ddibyniaeth organebau mewn ecosystemau ac esbonio sut mae hyn yn effeithio ar eu siawns o oroesi.<br>Dyniaethau<br>• Deall yr ystod o ffactorau sy'n effeithio ar y cydberthynas rhwng pobl a phrosesau ffisegol.<br>• Deall ac esbonio sut mae llefydd, gofodau, amgylcheddau a thirffurfiau arwyddocaol yn y byd naturiol yn cael eu cysylltu â chredoau economaidd, hanesyddol, gwleidyddol, crefyddol ac anghrefyddol ac arferion.<br>• Dealltwriaeth o fy nghyfrifoldebau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol fy hun ac eraill wrth greu dyfodol cynaliadwy. | |
| Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd | Cam Cynnydd: Pedwar |
| Dadansoddi Data<br>• Dadansoddi gwybodaeth fathemategol, gan dynnu casgliadau o graffiau a data, gan gynnwys trafodaeth ar gyfyngiadau data. | |

| |
|---|
| • Tynnu casgliadau o ddata a chydnabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr. |
| Cynefin |
| Ecosystemau o gwmpas arfordir Cymru |

| **Gweithgareddau Un** | Adnoddau ac Offer |
|---|---|
| **Effeithiau Ecosystem o Bysgota Anghynaladwy**<br><br>Defnyddiwch y cyflwyniad Pysgota Cynaliadwy i gyflwyno'r pwnc i'r disgyblion.<br><br>Mae gweithgaredd un yn canolbwyntio ar effeithiau pysgota anghynaladwy ar ecosystemau ac mae wedi'i rannu'n bedwar gweithgaredd sy'n edrych ar orbysgota, dinistrio cynefinoedd, deinameg gweoedd bwyd a sgil ddalfa (bycatch).<br><br>**Gorbysgota** – Bydd disgyblion yn dadansoddi graff sy'n dangos tueddiadau byd-eang stociau pysgod a chofnodi'u hatebion ar y daflen waith effeithiau ar ecosystemau.<br><br>**Dinistrio cynefinoedd** – Gwyliwch y fideo yn y Cyflwyniad a chwblhewch y cwestiynau cysylltiedig ar y daflen waith effeithiau ar ecosystemau.<br><br>**Deinameg gweoedd** – Chwaraewch y gêm gweoedd bwyd gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau a'r cardiau yn y pecyn. Mae'r gêm yn edrych ar sut mae gorbysgota yn newid deinameg gweoedd bwyd. Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd, dylai'r disgyblion ateb y cwestiynau cysylltiedig ar y daflen waith effeithiau ar ecosystemau.<br><br>**Sgil ddalfa** – Gwyliwch y fideo yn y cyflwyniad a chwblhewch y cwestiynau cysylltiedig ar y daflen waith effeithiau ar ecosystemau. | Cyflwyniad Pysgota Cynaliadwy<br><br>Taflen waith Effeithiau pysgota ar ecosystemau<br><br>Gêm Gweoedd |

| Gweithgaredd Dau | Adnoddau ac Offer |
| --- | --- |
| **Rheoli pysgota mewn ffordd gynaliadwy**<br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Rhowch un o'r effeithiau ar yr ecosystem sydd wedi'i astudio yng ngweithgaredd un i bob grŵp (gorbysgota, dinistrio cynefinoedd, deinameg gweoedd bwyd, sgil ddalfa). Dylai bob grŵp greu map meddwl ar sut y gallwn ni wella arferion pysgota a'r diwydiant pysgota i leihau eu heffaith ar ecosystemau a gwneud pysgota'n fwy cynaliadwy.<br><br>Gallwch ysgrifennu rhai geiriau allweddol ar y bwrdd i helpu'r disgyblion, e.e. offer bysgota, cychod, rhywogaethau, cynefinoedd, gwarchod, cyfraith.<br><br>Ar ôl pum munud, gofynnwch i'r disgyblion rannu eu syniadau a chreu map meddwl ar y bwrdd am bob effaith ar yr ecosystem gan gynnwys syniadau pawb. Bydd llawer o'r syniadau yn gorgyffwrdd â gwahanol effeithiau ar ecosystemau. Pwysleisiwch i'r disgyblion y bydd angen ystyried ffyrdd i leihau'r holl effeithiau ar ecosystemau er mwyn i bysgota fod yn gynaliadwy. Mae nodiadau wedi'u darparu gyda'r wybodaeth gefndirol athrawon i'ch helpu gyda'r gweithgaredd hwn. | Gwybodaeth Gefndirol Athrawon |

| Gweithgaredd Tri | Adnoddau ac Offer |
| --- | --- |
| **Dyframaeth**<br><br>Cyflwynwch ddyframaeth fel arfer pysgota gan ddefnyddio'r Cyflwyniad Pysgota Cynaliadwy.<br><br>Dylai'r disgyblion ddadansoddi'r ffeithluniau a nodi prif bwyntiau i greu tabl nodweddion cadarnhaol a negyddol dyframaeth gan ddefnyddio'r daflen waith dyframaeth. Dylai'r disgyblion feddwl am effeithiau ar ecosystemau, cyflenwad bwyd, effeithiau ar yr hinsawdd a chynaliadwyedd cyffredinol. Dylai'r disgyblion ychwanegu eu gwybodaeth a'u syniadau at y tabl yn ogystal â'r wybodaeth ar y ffeithluniau.<br><br>Er mwyn cyflwyno atebion cadarnhaol am ddyframaeth gynaliadwy, dangoswch y fideo yn y Cyflwyniad i'r disgyblion. Ar ôl gwylio'r Cyflwyniad defnyddiwch y cwestiynau yn yr adran nodiadau i drafod ffermio 3D. | Cyflwyniad Pysgota Cynaliadwy<br><br>FFeithluniau<br><br>Taflen waith dyframaeth |


| |
|---|
| **#ArFrigYDon** |
| Cymhwyso'r wybodaeth a gasglwyd yn y wers ar waith fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Mae'n bwysig sicrhau bod disgyblion yn gwybod bod ganddynt y pŵer i weithredu a gwneud newidiadau o fewn eu bywydau eu hunain a'r ysgol. Mae hefyd yn gam cadarnhaol sy'n helpu i gydbwyso rhai o'r effeithiau negyddol a archwiliwyd yn y wers.<br><br>Penderfynwch ar weithred/camau i'w cymryd naill ai fel unigolion neu fel dosbarth, dyma rai awgrymiadau neu gallai'r dosbarth ddewis rhai eu hunain. |
| Ysgol:<br>• Defnyddiwch *Good Fish Guide* y Gymdeithas Gadwraeth Forol wrth i chi brynu pysgod ar gyfer ciniawau ysgol er mwyn sicrhau eich bod chi'n defnyddio pysgod cynaliadwy yn eich ysgol. https://www.mcsuk.org/goodfishguide/search<br>• Anogwch eich cymuned i brynu pysgod cynaliadwy ar wefan eich ysgol a thrwy sianeli eich cyfryngau cymdeithasol er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r mater ac ysbrydoli ysgolion eraill i wneud yr un peth.<br>• Gwnewch yn siŵr eich bod yn dysgu am fwyd môr cynaliadwy yn eich gwersi technoleg bwyd. |
| Unigolion<br>• Defnyddiwch *Good Fish Guide* y Gymdeithas Gadwraeth Forol wrth i chi brynu pysgod gyda'ch teulu adref, yn eich siop pysgod a sglodion lleol, neu mewn bwyty er mwyn sicrhau eich bod chi'n prynu pysgod cynaliadwy o ffynonellau cyfrifol. https://www.mcsuk.org/goodfishguide/search<br>• Dywedwch wrth eich ffrindiau a'ch teulu am y *Good Fish Guide,* a pham fod prynu bwyd môr cynaliadwy yn bwysig.<br>• Dangoswch i'r llywodraeth eich bod yn poeni am fwyd môr cynaliadwy drwy arwyddo ymgyrch raddfa goch y Gymdeithas Gadwraeth Forol ar-lein. https://www.mcsuk.org/campaigns/red-rated-seafood-home |

| Gweithgareddau eraill | Adnoddau ac Offer |
| --- | --- |
| **Gweithgaredd Un - Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy**<br>Yn y gêm hon bydd y disgyblion yn cymryd rolau pysgod, morgwn a physgotwyr. Bydd angen i'r disgyblion wneud dewisiadau ynghylch faint o bysgod y gellir eu tynnu o'r cefnfor heb effeithio ar boblogaeth gyffredinol pysgod. Bydd angen iddyn nhw hefyd ystyried y galw am bysgod fel ffynhonnell bwyd. Darperir taflenni gwaith i'r disgyblion wneud nodiadau a chyfrifiadau er mwyn deall y prosesau sy'n llywio pysgota cynaliadwy.<br>https://www.msc.org/docs/default-source/default-document-library/education-page/msc-go-fish.pdf?sfvrsn=cd19fbdf_22<br><br>**Gweithgaredd Dau- Treillrwydo a Bioamrywiaeth y Cefnfor**<br>Mae'r adroddiad diweddar hwn o'r enw, 'Marine unProtected areas' yn tynnu sylw at sut mae treillrwydo môr waelodol yn niweidio bioamrywiaeth y cefnfor. Gall y disgyblion ddefnyddio prif ddarganfyddiadau'r adroddiad i ysgrifennu crynodeb blog / erthygl papur newydd.<br>https://www.mcsuk.org/media/marine-unprotected-areas-summary-report.pdf<br><br>**Gweithgaredd Tri – Cyflwyniadau Fideo**<br><br>Mae'r fideo hon yn crynhoi effeithiau pysgota ar ecosystemau ac yn esbonio ystyr cynaliadwy (stopiwch ar 2.11 gan fod yr adran olaf yn canolbwyntio ar America). Gellir ei dangos cyn gweithgaredd 3 i grynhoi'r hyn sydd wedi'i ddysgu a chyflwyno dyframaeth.<br>https://www.youtube.com/watch?v=6ps0truARKs<br><br>Mae'r fideo hon yn dod â phopeth at ei gilydd am orbysgota, dinistrio cynefinoedd a heriau rheoli. Gallwch wylio hon ar ddiwedd y wers a gofyn i'r disgyblion ysgrifennu paragraff i grynhoi'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu.<br>https://www.youtube.com/watch?v=WNdR808jMSA&t=52s | |

## Effeithiau Pysgota Anghynaladwy ar Ecosystemau

**GORBYSGOTA**

FFIGUR 19 TUEDDIADAU BYD-EANG STOCIAU PYSGOD MOROL Y BYD 1974-2017




Beth oedd canran pysgota anghynaladwy yn 1974?

**DINISTRIO CYNEFINOEDD**

Pa mor fawr y gall treill-longau môr waelodol mawr fod?

Sut mae treillrwydo môr waelodol yn effeithio ar y bywyd morol a'r planhigion sy'n byw ar wely'r môr?

Ydy'r fideo hon yn cynrychioli pob math o bysgota? Allwch chi feddwl am ddull pysgota arall a fyddai'n fwy cynaliadwy a fydd yn achosi llai o niwed i'r cynefin?

**SGIL DDALFA (BYCATCH)**

Beth yw rhywogaeth darged?

Beth yw sgil ddalfa?

Sut mae sgil ddalfa yn wael i fywyd gwyllt ac yn anghynaladwy?

**DEINAMEG GWEOEDD BWYD**

Pa rywogaethau gafodd eu heffeithio gan golli cregyn gleision o'r we fwyd?

Sut mae gorbysgota yn newid deinameg gweoedd bwyd?
Trafodwch newidiadau i'r gadwyn fwyd a'r we fwyd ehangach. Ystyriwch newidiadau i ddeinameg ysglyfaethwyr ac ysglyfaethau.

## Dyframaeth

Gwerthuswch y ffeithluniau a chwblhewch y tabl isod i ddangos nodweddion cadarnhaol a negyddol dyframaeth.

Ystyriwch yr effeithiau ar yr ecosystem, cyflenwad bwyd, effeithiau ar y hinsawdd a chynaliadwyedd yn gyffredinol.

Unwaith i chi orffen gwerthuso'r ffeithluniau, ychwanegwch eich gwybodaeth a'ch meddyliau eich hun ar ddyframaeth i'r tabl.

| **Nodweddion cadarnhaol dyframaeth** | **Nodweddion negyddol dyframaeth.** |
|---|---|
| | |

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13